| | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Mehefin 2018** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd)** |
| **Teitl:** | **Cydbwyllgor Craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad yw hwn am y trefniadau arfaethedig yn y dyfodol i graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ar 28 Medi 2017 adolygodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y gofynion statudol i awdurdodau lleol graffu ar BGC a gofynnwyd am sylwadau ar y model gorau. Gofynnodd y BGC am ffurfio un cydbwyllgor Craffu Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am ymateb yr awdurdodau lleol i gais y BGC.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar ymateb yr awdurdodau lleol i'w gynnig i sefydlu Cydbwyllgor Craffu ac ar y cylch gorchwyl drafft.

## 4. Manylion yr Adroddiad

<u>Cefndir</u>

4.1 Yn ôl Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rhaid i bwyllgor craffu dynodedig yr awdurdod lleol graffu ar waith y BGC ar gyfer yr ardal honno. Y bwriad yw bod y cyfrifoldeb ar gyfer herio ac atebolrwydd yn lleol yn hytrach nag ar weinidogion Cymru.

4.2 Yn ôl y Ddeddf:

*Rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau fod gan ei bwyllgor trosolwg a chraffu bŵer i:*
*a) Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wneir neu'r camau a gymerir gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;*
*b) Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethau'r bwrdd;*
*c) Gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r bwrdd ynglŷn â'i swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu;*
*d) Ystyried materion yn ymwneud â'r bwrdd gan y gallai Gweinidogion Cymru gyfeirio ato ac adrodd i Weinidogion Cymru'n unol â hynny; a*

*e) Chyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r bwrdd a orfodir arno gan y Ddeddf.*

4.3 Ar ddechrau 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Ddeddf a sefydlodd BGC. O ran y trefniadau craffu ar gyfer BGC dywed y ganllaw:

*"Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd mae gofyniad i bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mater i'r awdurdod lleol unigol fydd ei drefniadau ar gyfer craffu ar y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'n aelod ohono. Er enghraifft, gellir defnyddio pwerau deddfwriaethol sy'n bod eisoes i roi trefniadau ar y cyd ar waith, fel 'cyfethol' pobl nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod i eistedd ar y pwyllgor a lle bo'n briodol, penodi cydbwyllgorau sy'n rhychwantu ffiniau mwy nag un awdurdod lleol.*

*Er y bydd yn parhau i fod yn hollol gyfreithlon i bwyllgor craffu pwnc (megis pwyllgor craffu plant a phobl ifanc) graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â mater penodol, mae'n bwysig fod gan un pwyllgor trosolwg cyffredinol ar effeithiolrwydd y bwrdd. Dyma pam fod yn rhaid i un pwyllgor gael ei ddynodi i ymgymryd â'r gwaith hwn."*[1]

4.4 Gan gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, mae cynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi dewis un o'u Pwyllgorau Craffu fel eu pwyllgor Craffu BGC dynodedig.

4.5 Erbyn Awst 2017 roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw ar graffu ar BGC (ynghlwm yn atodiad 1).

<u>Sefydlu Cydbwyllgor Craffu</u>

4.6 Ym marn y BGC fis Medi diwethaf cydbwyllgor Craffu ffurfiol fyddai'r dull mwyaf priodol i graffu'n effeithiol ar fwrdd bwrdeistref sirol/traws sirol fel y BGC. Roedd yr awdurdodau lleol wedi ystyried cynigion i sefydlu pwyllgor o'r fath yn 2016 ac ar y pryd penderfynodd aelodau etholedig yn erbyn defnyddio cydbwyllgor.

4.7 Bellach mae'r grwpiau cydlynu Craffu a Phwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yng nghynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi ystyried a chytuno â'r sylwadau a gyflwynwyd gan y BGC i sefydlu cydbwyllgor a chymeradwywyd cylch gorchwyl drafft i ymgynghori ymhellach arno. Mae'r ddogfen hon yn Atodiad 2.

4.8 Gofynnir am sylwadau gan y BGC ar y cylch gorchwyl drafft a bydd y rhain yn cael eu cyfleu i'r grwpiau cydlynu Craffu a'r Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn y ddau gyngor. Rhagwelir y bydd cylch gorchwyl drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r ddau gyngor yn Hydref, ac, os bydd yn cael ei gymeradwyo, bydd pwyllgor Craffu ar y cyd yn cael ei sefydlu'n ffurfiol.

---

[1] https://gov.wales/docs/desh/publications/161111-spsf-3-collective-role-cy.pdf *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, SPSF3L Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)* Llywodraeth Cymru, 2016

## 5. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Adran 58 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Rheoliad 3 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013